STIWDIO HYFFORDDI ANIMEIDDIO DIGIDOL YNG NGHAERDYDD

Mae Cyfle'n cynnig agoriad i 6 o unigolion sydd yn ysu am gael datblygu ymhellach ym maes cyffrous animeiddio digidol yng Nghymru. Mae 'Stiwdio Hyfforddi Animeiddio Digidol' Cyfle yn gynllun hyfforddi galwedigaethol deuddeg mis o hyd mewn cydweithrediad â Calon, Dinamo a Griffilms. Bydd yr hyfforddiant yn digwydd yn fewnol ac yn cynnwys tri mis ar leoliad gyda chwmni animeiddio yng Nghymru ac un mis ar leoliad rhyngwladol.

Animeiddiwr – Cynnyrch Cyfrifiadurol 3D
Animeiddiwr - Dylunio Llaw 2D

Sylwer y disgwylir i bob ymgeisydd ar gyfer y swyddi hyfforddi uchod feddu ar sgiliau animeiddio.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr o ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru yn unig a bydd y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

- Telir Lwfans Hyfforddi
- Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau: 12 Ebrill 2007
- Dyddiad dechrau'r cwrs: 25 Mehefin 2007

Gofynnir i chi gynnwys esiampl o'ch gwaith animeiddio i'w amgáu gyda'r ffurflen gais.

Am swydd-ddisgrifiad, I lawrlwytho ffurflen gais, Am ragor o wybodaeth am ardaloedd Amcan 1:
www.cyfle.co.uk/english/recruiting.aspx